# Manyleb

**Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1151/2012 ar ddynodiadau daearyddol gwarchodedig ac enwau tarddiad gwarchodedig "West Wales Coracle Caught Salmon**" / **"Eogiaid Gorllewin Cymru wedi'u Dal o Gwrwgl"** Rhif CE:

PDO () PGI ( ✔ )

## 1 Yr adran gyfrifol yn yr aelod-wladwriaeth y Deyrnas Unedig

**Enw:** Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

**Cyfeiriad:** Food Composition and Standards Team **-** Food and Policy Unit

Area 7E
9 Millbank
Nobel House
C/O 17 Smith Square
London
SW1P 3JR
United Kingdom

**Ffôn:** +44207 238 6075

**Ffacs:** +44207 238 5728

**Ebost:** protectedfoodnames@defra.gov.uk

## 2. Grŵp

Enw: Cymdeithas Cwryglau a Rhwydwyr Caerfyrddin

Cyfeiriad: Swyddfa Llawr 1

9 Teras Elliston

Caerfyrddin

SA31 1HA

Ffôn:  07792 018 168

Ebost: Kirsty@cnwd.co.uk

Cyfansoddiad: Cynhyrchwyr/proseswyr (1) Arall (16)

16 o Gychod Pysgota

## 3. Math o gynnyrch

Dosbarth - Grŵp 1.7: pysgod ffres, molysgiaid a chramenogion a chynhyrchion sy'n deillio ohonynt.

## 4. Manyleb

### 4.1 Enw

“West Wales Coracle Caught Salmon” ("Eogiaid Gorllewin Cymru wedi'u Dal o Gwrwgl")

### 4.2 Disgrifiad

“Eogiaid Gorllewin Cymru wedi'u Dal o Gwrwgl" yw'r enw a roddir i bysgod o'r rhywogaeth Salmo Salar sydd wedi'u dal gan ddefnyddio'r dull traddodiadol Cymreig hynafol o bysgota cwrwgl.

Mae eogiaid ffres sydd wedi'u dal drwy bysgota cwrwgl yn rhai arian llachar, gyda chefn glas tywyll a smotiau du sydd wedi'u lleoli'n bennaf uwchben y llinell ochrol, er nad oes smotiau ar yr asgell gynffonnol fel arfer.

Mae'r cig yn gadarn gydag ansawdd dwys a lliw pinc/coch nodedig, ac mae ganddo arogl pysgod ffres y mae'r pysgotwyr cwrwgl yn ei ddisgrifio fel arogl tebyg i felon dŵr.

Mae "Eogiaid Gorllewin Cymru wedi'u Dal o Gwrwgl" yn cael eu dal cyn gynted ag y byddant yn mynd i mewn i'r system afonydd o'r môr yn nyfroedd isel a llanwol yr afon cyn iddynt ddod yn nodweddiadol anweithgar yn amgylchedd yr afon a chyn i'w cronfeydd egni gael eu disbyddu.

Mae'r pysgod yn ffres gyda chig cadarn ac ansawdd cyhyrau datblygedig uwch sy'n arwain at ansawdd dwysach gyda chynnwys olew a phrotein cyhyrau uchel.

Mae ganddynt siâp athletaidd hirgul amlwg, heb ormod o fraster yn deillio o'u nofio maith yn y môr a'r ardaloedd bwydo o ansawdd uchel sydd ar gael tra byddant yn y môr.

Oherwydd eu natur wyllt, nid yw "Eogiaid Gorllewin Cymru wedi'u Dal o Gwrwgl" yn cynnwys unrhyw ychwanegion a/neu liwiau artiffisial, a bydd maint y pysgod yn amrywio. Fodd bynnag, oherwydd maint rhwyll rhwyd cyfyngol o 10cm, y maint lleiaf ar gyfer "Eogiaid Gorllewin Cymru wedi'u Dal o Gwrwgl" fyddai 1 cilogram gan y byddai unrhyw bysgod llai o faint yn dianc drwy'r rhwyd.

Y maint mwyaf ar gyfer Eogiaid Gorllewin Cymru wedi'u Dal o Gwrwgl yw 15 cilogram

Mae "Eogiaid Gorllewin Cymru wedi'u Dal o Gwrwgl" yn wahanol i fathau eraill o eogiaid oherwydd eu marciau perffaith, gyda chennau yn gyfan a ffyrfder cyhyrau da ac ansawdd cadarn, a dylent fod yn rhydd o afluniad i'w cynffon, eu hesgyll neu eu pennau.

Yn ogystal, mae'r asgell gynffon yn fwy datblygedig a, phan gaiff ei hymestyn, mae'n geugrwm ac mae arddwrn y gynffon yn gul gydag ehangiad amlwg ar ochr gynffon yr arddwrn. Nid yw safn yr eog yn ymestyn ymhellach nag ymyl ôl y llygad ac mae gan yr eog gwyllt gwrywaidd "big" amlwg.

Gan fod pysgota cwrwgl yn dal eogiaid yn unigol ac nid mewn lluosrifau, nid yw "Eogiaid Gorllewin Cymru wedi'u Dal o Gwrwgl" mor agored i gleisio, difrod i'r cig ac afluniad sy'n gallu digwydd gydag eogiaid eraill sy'n cael eu ffermio neu eu dal â rhwyd ddrifft.

Mae hyn yn cyfrannu at ansawdd bwyta'r "Eogiaid Gorllewin Cymru wedi'u Dal o Gwrwgl" gyda'u cig cadarn dilychwin a'u hansawdd dwys.

Pan gânt eu coginio, mae gan "Eogiaid Gorllewin Cymru wedi'u Dal o Gwrwgl" flas "ffres" melys cryf amlwg, gyda blas olewog ysgafn nad yw'n ormod i'r daflod, ac mae'r cig yn gadarn gydag ansawdd dwys.

Mae gan "Eogiaid Gorllewin Cymru wedi'u Dal o Gwrwgl" gynnwys olew a phrotein cyhyrau uchel.

Mae "Eogiaid Gorllewin Cymru wedi'u Dal o Gwrwgl" yn cael eu gwerthu'n gyfan yn bennaf ac wedi'u dal yn ffres fel arfer, er y gellir gwerthu'r eogiaid wedi'u rhewi hefyd.

**4.3 Ardal ddaearyddol**

Yr ardaloedd yn afonydd Tywi, Taf a Theifi yn y Gorllewin lle mae pysgota cwrwgl yn gyfreithlon fel y nodir gan y gorchmynion cyfyngu ar rwydi cwrwgl ar gyfer pob un o'r tair afon fel a ganlyn:

Afon Tywi: -Yn y rhan honno o'r afon sydd rhwng llinell ddychmygol a dynnwyd yn syth ar draws afon Tywi o'r orsaf bwmpio rheilffordd ger yr hen waith tunplat yng Nghyfeirnod Grid

Cenedlaethol (NGR) SN 420205 a llinell ddychmygol a dynnwyd yn syth ar draws Afon Tywi yn NGR SN 394137.

Afon Teifi: -Yn y rhan honno o'r afon sydd rhwng pont Aberteifi a phont Llechryd.

Afon Taf: -Yn y rhan o'r afon sydd rhwng y brif bont ffordd ar yr A477 rhwng Caerfyrddin-Penfro a leolir tua 1.6 cilometr i lawr yr afon o linell ddychmygol a dynnwyd yn syth ar draws afon Taf o Bwynt Wharley i Bwynt Ginst.

**4.4 Prawf tarddiad**

Mae canllawiau llym o ran lle y gellir pysgota â chwrwgl ar bob un o'r tair afon lle mae "Eogiaid Gorllewin Cymru wedi'u Dal o Gwrwgl" yn cael eu dal. Dim ond o fewn ardaloedd llanwol penodol yr afonydd y caniateir pysgota cwrwgl gan y canllawiau hyn.

Mae'r defnydd o rwydi cwrwgl yn dod o dan ddeddfwriaeth sy'n:

- pennu nifer y rhwydi y gellir eu pysgota mewn ardal benodol
- llywodraethu'r tymor cau, amseroedd cau wythnosol (ni chaniateir pysgota cwrwgl ar benwythnosau) a'r math o offer pysgota a maint rhwyllau y gellir eu defnyddio

Rhoddir rhif i bob cwrwgl ar yr afon ac, ar ddechrau'r tymor, mae pob deiliad trwydded yn cael llyfr log a set o dagiau sy'n cyfateb i'w gwch.

Rhaid i'r deiliad trwydded lenwi ei lyfr log bob dydd, a gellir olrhain pob dalfa gan fod pob pysgodyn wedi'i dagio o dan ganllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae tag plastig gyda rhif adnabod unigryw yn cael ei osod drwy dagell pob eog, ac mae'n orfodol gosod y tag drwy dagell pob pysgodyn cyn glanio.

Mae pob llyfr log yn cofnodi:

- rhifau tagiau
- y dyddiad dal
- maint/pwysau'r pysgod

Mae'r tagiau'n dangos rhif y pysgodyn a rhif y cwrwgl; gellir olrhain pob tag yn ôl yn rhwydd i'r cwrwgl a ddaliodd y pysgodyn. Mae hyn yn sicrhau tryloywder llwyr a'r gallu i olrhain gydol y broses. Mae'n anghyfreithlon cyflenwi unrhyw "Eogiaid Gorllewin Cymru wedi'u Dal o Gwrwgl" heb eu tagio.

Cynhelir hapwiriadau rheolaidd gan Swyddogion Gorfodi i sicrhau bod deiliaid trwydded yn cadw cofnodion cyfredol a bod y pysgod sy'n cael eu dal yn cyfateb i'r cofnodion hyn.

Ar ddiwedd y tymor, dychwelir y llyfrau log a'r tagiau sy'n weddill i Asiantaeth yr Amgylchedd (neu gorff gorfodi tebyg). Cyhoeddir llyfrau log a thagiau newydd ar gyfer y tymor canlynol.

### 4.5 Dull cynhyrchu

Mae "Eogiaid Gorllewin Cymru wedi'u Dal o Gwrwgl" yn cael eu dal gan bysgotwyr cwrwgl yn ystod y tymor eogiaid, sy'n amrywio yn ôl yr afon y cawsant eu dal ohoni.

Mae'r tymor pysgota cwrwgl am eogiaid yn amrywio yn ôl yr afon sy'n cael ei physgota.

- ar afon Tywi, mae'r tymor yn para o 1 Mehefin tan 31 Gorffennaf
- ar afon Teifi, mae'r tymor yn para o 1 Mehefin tan 31 Awst
- ar afon Taf, mae'r tymor yn para o 1 Mehefin tan 31 Gorffennaf

**Cwryglau**

Cychod bach siâp hirgrwn yw cwryglau, gyda phlanc ar draws y canol i ffurfio sedd. Maent wedi'u gwneud â llaw o goed ynn a helyg ac wedi'u hadeiladu fel basgedi. Mae pob cwrwgl yn cario un pysgotwr ac mae'n cael ei lywio gan rodl un llaw.

Defnyddir pâr o gwryglau yn gweithio gyda'i gilydd ar gyfer pysgota cwrwgl, gyda rhwyd rhyngddynt. Mae pysgota gan ddefnyddio’r dull hwn yn digwydd yn y nos yn bennaf i atal yr eogiaid rhag gweld cysgod y cwrwgl neu'r rhwyd yn dod tuag atynt wrth iddynt ddychwelyd i'w silfa.

**Rhwydi**

Yn draddodiadol, mae'r rhwydi wedi'u gwneud â llaw o gortyn lliain neu gywarch, ac maent wedi'u gwneud yn arbennig. Yn yr un modd â gwneud y cwryglau, mae sgil ac arbenigedd gwneud rhwydi wedi esblygu hefyd yn sgil cyflwyno neilon.

Mae'r rhwyd yn rhwyd driphlyg un wal sydd wedi'i chyfyngu i 12 metr o led gydag agoriad o 45cm. Yr isafswm maint rhwyll cyfreithlon ar gyfer rhwyd cwrwgl yw 10cm.

Mae 2 fath o rwyd sy'n cael eu defnyddio yn dibynnu ar adeg y tymor.

Yn y gwanwyn, maint rhwyll y rhwyd yw 15cm fel arfer gan fod y pysgod yn fwy o faint ar y cyfan, felly byddai unrhyw bysgod o dan 1.8 cilogram bryd hynny yn cael eu colli.

Ar ddechrau'r haf, mae maint y rhwyll yn cael ei newid i'r isafswm cyfreithlon. Mae hyn yn caniatáu i bob pysgodyn ifanc neu bysgodyn 1 cilogram neu lai ddianc. Mae hyn yn dangos bod pysgota cwrwgl yn ddull cynaliadwy o bysgota.

**Dull pysgota**

Mae'r rhwyd yn cael ei hymestyn rhwng y ddau gwrwgl, a dyma'r math cynharaf o bysgota treillio sy'n hysbys i'r diwydiant pysgota. Mae'r eog yn teithio i'w silfa ar hyd welyau'r afonydd yn dilyn eu cyfuchlinau. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chronni gan y dynion cwrwgl dros ganrifoedd o bysgota.

Dim ond yn ardaloedd llanwol penodol afonydd Taf, Tywi a Theifi y caniateir pysgota cwrwgl. Mae'r llinellau terfyn wedi'u nodi yn yr is-ddeddfau pysgota. Mae'r rhwyd yn cael ei threillio ar wely'r afon gan ddefnyddio darnau bach o bwysau plwm. Dim ond pysgod yn nyfnder y 18 modfedd gyntaf o wely'r afon y bydd y rhwyd yn eu dal.

Bydd unrhyw bysgod uwchben y lefel honno yn dianc gan y byddai'r eogiaid yn nofio uwchben y rhwyd. Mae'r llinell gorc yn helpu i gadw pen y rhwyd mewn siâp bwa yn wynebu am ymlaen, a bydd y ddau gwrwgl yn cadw ceg y rhwyd ar agor.

**Cyfnodau Cynhyrchu**

I) mae eogiaid yn cael eu dal drwy bysgota cwrwgl gan ddefnyddio rhwyd wedi'i gwneud â llaw. mae pysgota cwrwgl yn cynnwys pâr o gwryglau’n gweithio gyda'i gilydd, gyda rhwyd rhyngddynt fel y disgrifir uchod

II) caiff eogiaid eu tagio ar fwrdd y cwrwgl, gyda thag plastig yn cael ei osod drwy dagell pob eog. gosodir y tag yn nhagell y pysgodyn cyn glanio. mae pob tag yn cyfateb i'r cwrwgl penodol a ddaliodd y pysgodyn

III) cludir yr eogiaid i'r lan yn y cwrwgl. yna, mae'r eogiaid yn cael eu pwyso ar ôl glanio a'u cofnodi yn y llyfr log a roddir i bob pysgotwyr cwrwgl trwyddedig

IV) mae'r eogiaid yn cael eu cludo i'w storio lle cânt eu gorchuddio ag iâ mewn blwch oer neu eu storio mewn oergell ar dymheredd o 0ºc i 4ºc

V) mae'r pysgod yn cael eu dal yn ffres a’u gwerthu'n gyfan yn bennaf i fwytai a gwestai lleol fel cynnyrch tymhorol lleol/rhanbarthol premiwm. fe'u gwerthir i gyfanwerthwyr pysgod a gwerthwyr pysgod lleol ac i broseswyr pysgod i'w cochi hefyd

**4.6 Cysylltiad**

Mae'r cais PGI am "Eogiaid Gorllewin Cymru wedi'u Dal o Gwrwgl" yn seiliedig ar briodoleddau cynnyrch unigryw o safon uchel y mae ei nodweddion penodol yn cynnwys;-

1) Yn gysylltiedig â'r ffaith bod y pysgod yn bysgod "gwyllt" a'u hamser yn y môr ac ansawdd uchel dŵr yr afon lle mae'r eogiaid yn dechrau eu bywyd ac yn dychwelyd i fridio.
2) Yn gysylltiedig â'r dull traddodiadol unigryw o bysgota cwrwgl Cymreig sy'n ddull traddodiadol o bysgota eogiaid a ganiateir yn gyfreithlon ar afonydd Taf, Tywi a Teifi yn y Gorllewin yn unig.

Mae eogiaid yn bysgod mudol sydd â'r gallu i fyw mewn dŵr ffres (afonydd) a dyfroedd hallt (môr). Mae'r eogiaid yn silio mewn dŵr ffres ac yn byw am y blynyddoedd cyntaf yn yr afonydd.

Ar ddechrau'r gwanwyn bob blwyddyn, maent yn dychwelyd i'r môr i fwydo a thyfu. Ar ôl tua dwy flynedd, byddant yn dychwelyd i afon eu genedigaeth i ddechrau'r cylch o'r newydd.

Bydd eog benywaidd nodweddiadol yn cynhyrchu 2,000 o wyau fesul cilogram (900 wy fesul pwys) o bwysau'r corff ar gyfartaledd wrth silio.

Byddai ffyrfder cyhyrau wedi datblygu mwy mewn eogiaid gwyllt o gymharu ag eogiaid a ffermir oherwydd y pellter sylweddol y mae eogiaid gwyllt yn ei deithio wrth fudo ac ansawdd uchel yr ardaloedd bwydo tra'u bod nhw yn y môr lle mae eu cronfeydd egni'n datblygu.

Mae gwell ffyrfder cyhyrau'n arwain at ansawdd dwysach heb ormod o ddyddodion braster.

Mae'r nodweddion hyn yn cael eu cadw gan y dull pysgota sy'n sicrhau bod y pysgod yn cael eu dal ar eu gorau cyn gynted ag y byddant yn mynd i mewn i'r system afonydd yn nyfroedd isel a llanwol yr afon a chyn iddynt ddod yn nodweddiadol anweithgar a bod eu cronfeydd egni'n cael eu disbyddu yn amgylchedd yr afon.

Mae hyn yn cyfrannu at y ffaith bod gan "Eogiaid Gorllewin Cymru wedi'u Dal o Gwrwgl" flas melys cryf mwy brau gyda blas olewog cynnil nad ydynt yn ormod i'r daflod, ac mae'r cig yn gadarn gydag ansawdd dwys.

Mae'r dŵr yn afonydd Taf, Tywi a Theifi o ansawdd uchel iawn ac yn cael ei fonitro a'i gofnodi'n rheolaidd gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'r lefelau llygredd yn y tair afon yn isel iawn, ac maent wedi ennill statws gradd 'A', sy'n dangos bod gan yr afonydd '*ecosystemau naturiol a'u bod yn bysgodfeydd salmonid a chyprinid da iawn'.*

Mae pysgota cwrwgl yn ffordd hynafol o bysgota am bysgod mudol. Mae'n hen grefft a sgil a gofnodwyd yn yr 11eg Ganrif (ac yn gynharach), sydd wedi goroesi i'r 21ain Ganrif. Er y defnyddiwyd cwryglau'n helaeth ledled Cymru ar un adeg, maent wedi'u cyfyngu i afonydd Taf, Tywi a Theifi yn y Gorllewin bellach.

Mae pysgota cwrwgl yn gyfyngedig i'r afonydd hyn ac mae wedi bod mewn bodolaeth mewn un teulu o bysgotwyr cwrwgl sy'n pysgota ar afon Tywi ar hyn o bryd ers dros 300 mlynedd.

Mae pysgota cwrwgl yn ddiwydiant cartref yn y Gorllewin sy'n dyddio'n ôl i'r 1800au. Yn draddodiadol, mae'r cwryglau wedi'u gwneud â llaw o goed ynn a helyg ac wedi'u hadeiladu fel basgedi.

Er nad yw'r cynllun na'r dull o wneud y cwryglau wedi newid llawer ers canrifoedd, mae datblygiadau mewn deunyddiau modern yn cynnwys defnyddio calico, cynfas a gwydr ffibr wrth eu cynhyrchu erbyn hyn.

Mae 2 brif fath o gwrwgl sydd wedi'u creu'n benodol i weddu i nodweddion llanwol unigol y tair afon.

Mae gan Gwrwgl Tywi gynllun culach (gan fod yr afon yn lletach, mae angen i'r cwrwgl fod yn gulach er mwyn croesi'r afon yn gyflymach;) ac mae gan gwrwgl Teifi gynllun mwy sefydlog sy'n angenrheidiol ar gyfer pysgota yn nyfroedd cyflymach, mwy garw afon Teifi.

Ar brint yn Amgueddfa Caerfyrddin sy'n dyddio o 1794, mae syniad o gynllun a gorchudd cwrwgl Tywi yn ymddangos mewn darn o farddoniaeth:

*Llangunnor Hill*

*Upon the glittering stream below,*

*Those fishermen of courage bold,*

*In numerous pairs, pursue their trade*

*In coracles themselves have made;*

*Form'd of slight twigs with flannel cas'd*

*O'er which three coats of tar are plac'd*

*And as a porter bears his pack*

*Each mounts his vessel on his back.*

Yn hanesyddol, byddai gwahanol genedlaethau o'r un teulu yn dibynnu ar bysgota cwrwgl ar yr afonydd hyn am eu bywoliaeth. Yn ogystal â'r pysgotwyr cwrwgl, a gwneuthurwyr cwryglau a rhwydi, byddai tyfwyr cywarch a llin a gwneuthurwyr rhaffau. Ar un adeg, roedd tua 200 o gwryglau ar yr afonydd hyn.

Ym 1807, roedd cymaint o bysgotwyr cwrwgl yng Nghenarth (pentref ar afon Teifi) nes i un arsylwr cyfoes ysgrifennu: 'There is scarcely a cottage in the neighbourhood without its coracle hanging by the door.'

Yn ôl un tyst i'r Comisiwn Brenhinol ym 1861, roedd y pysgod a ddaliwyd gan ddynion cwrwgl Tywi yn cael eu "salted and sold as dried fish in the town and country and sent away. They used to be hawked about the streets of Carmarthen by the fishermen's wives and by the fishermen and in the country along the side of the Tywi".

'The Coracle' gan J. Geraint Jenkins

Ym 1939, cyfyngwyd ar nifer y trwyddedau rhwydi ar yr afonydd, ond heddiw byddwch yn dal i weld aelodau o'r un teulu yn pysgota'r afonydd am eogiaid.

Ar y cyd â gwneud cwryglau, mae sgil ac arbenigedd gwneud rhwydi wedi'u trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall hefyd. Yn hanesyddol, gwnaed y rhwydi o gywarch, ond erbyn hyn mae gwneud rhwydi wedi esblygu gyda chyflwyniad neilon.

Sgil arall sy'n gysylltiedig â physgota cwrwgl a gwneud rhwydi yw'r system plwm unigryw, sef nifer y pwysynnau plwm a roddir ynghlwm wrth y rhwydi cwrwgl, a'u pwysau. Mae'r system plwm yn gymhleth ac mae'n seiliedig ar y gyfres Fibonacci o rifau mewn natur. (1 x 3 darn o blwm, 4 x 2 ddarn o blwm, 6 x 1 darn o blwm) Fe'i haddysgir drwy ymarfer fel arfer, ac mae'n sgil a drosglwyddir o un genhedlaeth i'r llall.

Mae pysgota cwrwgl yn cynnwys llywio a mordwyo manwl gywir, rheoli lleoliad y rhwyd a gofalu bod y cwch yn hynawf. Mae gwybod pa fannau llanwol i'w pysgota a'r gallu i "ddarllen" yr afon yn hanfodol, ac mae'n golygu ystyried ffactorau megis llif yr afon, ei dyfnder (yn dibynnu ar ddŵr llifogydd), y llanw a'r amodau gwynt.

Mae sgil y pysgotwyr cwrwgl yn cael ei bwysleisio gan y ffaith bod pysgota cwrwgl yn digwydd yn bennaf yn y nos. Mae pysgota cwrwgl yn dechrau yn y cyfnos – sy'n cael ei ddisgrifio gan bysgotwyr cwrwgl fel 'clyfwchwr'. Mae pysgota'n digwydd yn bennaf yn y nos i atal y pysgod rhag gweld cysgod y cwrwgl neu'r rhwyd yn dod tuag atynt.

Mae gan ddynion cwrwgl hen ddywediad sy'n dweud - Ar noson ddigwmwl, cyn gynted ag y bydd saith seren yn ymddangos yn yr awyr, dyma pryd y gall y pysgota gychwyn.

Mae Eogiaid Gorllewin Cymru wedi'u Dal o Gwrwgl yn gynnyrch o safon uchel sy'n cael ei ddefnyddio gan lawer o'r cogyddion gorau, ac mae'n ymddangos yn rheolaidd fel cynhwysyn ar eu bwydlenni.

Yn y tymor pysgota cwrwgl, mae'r pysgod yn ymddangos yn rheolaidd fel cynnyrch tymhorol ar fwydlenni mewn sefydliadau lleol adnabyddus, ac mae galw mawr amdanynt ymhlith pobl leol a thwristiaid. Mae'n cael ei gochi hefyd a'i ddefnyddio fel cynhwysyn mewn terîn, er enghraifft.

Ar hyn o bryd, mae'r cynhyrchion hyn yn cael eu gwerthu i fannau gwerthu bwyd o fri yn Llundain a ledled y DU. Ar hyn o bryd, mae "Eogiaid Gorllewin Cymru wedi'u Dal o Gwrwgl" yn cael eu gwerthu yn neuaddau bwyd Harrods a Fortnum and Mason, Llundain.

**Simon Wright, beirniad bwyd y Good Food Guide**

“Mae cyfoeth o fwydydd rhagorol i’w cael yn y rhan hon o Gymru, ond does dim amheuaeth gen i mai “Eogiaid Gorllewin Cymru wedi’u Dal o Gwrwgl” yw’r un sy’n sefyll allan am fod yn gwbl unigryw ac, mewn sawl ffordd, mae’n diffinio diwylliant bwyd y rhanbarth.

Mae’n fwy na dim ond y blas, sy’n gwbl unigryw, mae a wnelo â’r stori gyfan, y traddodiad a’r hanes sy’n gysylltiedig â’r cynnyrch.”

“Pan fyddan nhw wedi’u coginio neu eu cochi, mae gan Eogiaid Gorllewin Cymru wedi’u Dal o Gwrwgl flas cyfoethog a gweadwedd dwys, mae ganddyn nhw liw pinc/coch dwfn ac maen nhw’n isel mewn braster. Mae’r lliw, fodd bynnag, yn amrywio ychydig o bysgodyn i bysgodyn.”

**4.7 Corff arolygu**

Enw: Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfeiriad: Cyfoeth Naturiol Cymru

Maes Newydd

Llandarcy

Castell-nedd Port Talbot

SA10 6JQ

Ffôn: 01792 325615

Ebost: david.mee@naturalresourceswales.gov.uk

**Mae'r corff arolygu yn cydymffurfio ag egwyddorion safon EN 45011.**